

2025 Rhif (Cy. )

2025 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Stryd y Rhos, Rhuthun, Sir  
Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau,  
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)  
2025

The A494 Trunk Road (Rhos  
Street, Ruthin, Denbighshire)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)  
Order 2025

Gwnaed 6 Ionawr 2025  
Yn dod i rym 12 Ionawr 2025

Made 6 January 2025  
Coming into force 12 January 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title and Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Stryd y Rhos, Rhuthun, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw i rym ar 12 Ionawr 2025.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Rhos Street, Ruthin, Denbighshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2025 and it comes into force on 12 January 2025.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## 2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 07:00 o’r gloch ar 12 Ionawr 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “darn penodedig o’r gefnffordd” (“*specified length of the trunk road*”) yw’r darn hwnnw o Gefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw a elwir yn Stryd y Rhos sy’n dechrau o’i chyffordd â’r ffordd ymyl a elwir yn Haulfryn i’r man lle y mae Cefnffordd yr A494 yn cael ei galw’n Wernfechan.

### Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn penodedig o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn penodedig o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn penodedig o’r gefnffordd.

### Cymhwysyo

6. Nid fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Ionawr 2025

Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

## 2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

“specified length of the trunk road” (“*y darn penodedig o’r gefnffordd*”) means that length of the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road known as Rhos Street that commences from its junction with the side road known as Haulfryn to where the A494 Trunk Road becomes known as Wernfechan;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 07:00 hours on 12 January 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the specified length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the specified length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the specified length of the trunk road.

### Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs

### Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

6 January 2025

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

